



FACIWÎS YNG NGHYMRU

YR AIL RYFEL BYD

LGC
NLW

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES



CYFLWYNIAD

Yr Ail Ryfel Byd oedd y rhyfel mawr cyntaf ble cafodd awyrennau bomio eu defnyddio i dargedu pobl. Roedd hyn yn golygu ei bod yn gallu bod yn beryglus i fyw mewn ardaloedd trefol oedd yn dargedau i'r bomio.



FACIWÎS

Roedd y bygythiad o ryfel yn ystod y 1930au wedi gorfodi'r llywodraeth i ddechrau cynllunio ar gyfer symud pobl o'r ardaloedd mwyaf tebygol o gael eu bomio, dinasoedd fel Llundain a Lerpwl, i ardaloedd diogelach, fel cefn gwlad Cymru. Yn ogystal â phlant a'u hathrawon, roedd angen symud menywod beichiog, mamau â phlant ifanc, yr anhwylydus a'r henoed. Mae'r rhai gafodd eu symud o'u cartrefi i fyw mewn llefydd mwy diogel yn cael eu galw'n faciwîs.

GALERI



GALERI



Pa deimladau fyddai gan y plant yn y ffotgraffau?

FFEITHIAU

FE DDECHREUODD YR AIL RYFEL BYD AR Y CYNTAF O FEDI 1939.

YN YSTOD PEDWAR DIWRNOD CYNTAF MEDI 1939 SYMUDWYD DROS FILIWN O BLANT A DROS GAN MIL O ATHRAWON O'R DINASOEDD.

RHWNG 1939 AC 1945 SYMUDWYD BRON I BEDAIR MILIWN O BOBL O DDINASOEDD PRYDAIN, AC ANFONWYD DROS DDAU GAN MIL O FACIWÏS I BOB RHAN O GYMRU.

CWIS

Faint o blant symudwyd o'r dinasoedd yn ystod pedwar diwrnod cyntaf Medi 1939?

- ☐ A. Dros 1,000
- ☐ B. Dros 10,000
- ☐ C. Dros 1,000,000
- ☐ D. Dros 100,000

Check Answer

Faint o faciwîs symudodd i Gymru rhwng 1939 a 1945?

- ☐ A. 100,00
- ☐ B. 50,000
- ☐ C. 200,000
- ☐ D. 150,000

Check Answer

TEITHIO I GYMRU

Defnyddiwyd trenau, bysiau, ceir a chychod i symud y plant, ac yn ystod penwythnos cyntaf Medi 1939 cyrhaeddodd y faciwîs Gymru yn eu miloedd.

Cafodd y plant eu hebrwng ar eu taith gan eu hathrawon. Roedd yn rhaid gofalu eu bod yn mynd ar y cerbydau cywir, bod digon o fwyd a diod ganddyn nhw, a'u bod yn gadael y trê yn yr orsaf gywir.



EITEMAU HANFODOL I FACIWIS



PROFIADAU GWAHANOL

Roedd profiadau'r faciwîs yn wahanol i bob plentyn. Dyma'r tro cyntaf i lawer iawn ohonyn nhw adael cartref a bu'n antur gyffrous i rai, ond yn brofiad anodd iawn i eraill.

Doedd dim syniad ganddyn nhw i ble roedden nhw'n mynd ac roedd yn rhaid iddyn nhw deithio am oriau maith ar fysiau a threnau oedd yn aml yn orlawn.

Yn aml roedd plant o'r un ysgol yn cael eu anfon i'r un lle, ond gosodwyd y plant mewn grwpiau o ddau neu dri, neu weithiau ar eu pennau eu hunain yn eu cartrefi newydd.

Roedd gadael cartref a theulu yn gallu bod yn anodd, gyda llawer o'r faciwîs yn teimlo'n unig ac yn methu eu rhieni.

BYD NEWYDD

Roedd rhai problemau yn codi wrth i blant o ddinasoedd Lloegr symud i gefn gwlad Cymru. Mewn ambell i fan gwelwyd plant o gefndir tlawd iawn yn symud i fyw gyda theuluoedd cyfoethog, ac roedd hyn yn gallu bod yn sioc i'r ddwy ochr.

Roedd rhai faciwîs yn defnyddio'u bysedd i fwyta yn lle cyllell a fforc, ac yn gorfod cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r tŷ bach a chael bath.



BYW YNG NGHEFN GWLAD CYMRU

Roedd yn syndod i'r bobl oedd yn eu derbyn i weld pa mor dlawd oedd y plant, gyda llawer o'r faciwîs yn dioddef o ddiffyg maeth, yn hanner llwgu, ac yn cario llau (lice) yn eu dillad ac afiechydon ar eu crwyn.

Dyma'r tro cyntaf i nifer o'r faciwîs gael y cyfle i ddysgu unrhyw beth am gefn gwlad. Cafodd rhai o'r plant a symudodd o ddinasoedd Lloegr fynd i fyw ar ffermydd yng nghefn gwlad Cymru a gweld anifeiliaid fferm am y tro cyntaf yn eu bywydau, ac i lawer ohonyn nhw roedd cael bwyd maethlon ffres ac awyr iach yn llesol iawn.

BYWYD YSGOL

Efallai mai'r newid mwyaf i'r faciwîs oedd yr iaith. Symudodd rhai i gymunedau lle roedd y Gymraeg yn brif iaith ac yn cael ei siarad gan bawb yn yr ardal. Llwyddodd llawer o'r faciwîs i ddysgu Cymraeg yn rhugl a bu rhai'n ei siarad am weddill eu bywydau. Mae sôn am rai o'r plant ddaeth o Lerpwl yn dysgu Cymraeg ac yn ennill mewn eisteddfodau ar ôl byw yng Nghymru am flwyddyn yn unig.



CWIS

Beth oedd yn cael ei gadw mewn bocs o gwmpas gwddf pob faciwi?

- ☐ A. Brechdanau
- ☐ B. Mwgwd Nwy
- ☐ C. Dillad
- ☐ D. Llyfr dogni

Check Answer



Does dim amheuaeth bod y cynllun i symud plant o'r dinasoedd wedi arbed llawer iawn o fywydau, yn enwedig yn ystod y bomio trwm yn 1940 ac 1941.



Mae'r ffotograffau sydd yn y llyfr hwn yn rhan o Gasgliad Ffotograffau Geoff Charles, Llyfrgell Genedlaethol Cymru:

<https://www.llgc.org.uk/geoffcharles>